Desmond Tutu: 1931–

Cinio yn y bin sbwriel

Gostyngeiddrwydd / cryfder

Fyddwch chi yn hoffi cinio ysgol? Beth sydd ar y fwydlen y dyddiau yma? Sglodion, cig, llysiau, rafioli? A beth am bwdin? Tarten a chwstard, neu hyd yn oed bwdin reis? Neu, efallai eich bod yn bwyta'n iach. Saladau, ffrwythau, llysiau a dŵr. Beth bynnag, pan ddaw amser cinio mi fyddwn ni i gyd yn mwynhau rhywbeth i'w fwyta. Dwi'n siŵr na fyddwch chi'n gorfod chwilio yn y biniau sbwriel am rywbeth i'w fwyta. Pan oedd Desmond Tutu yn fachgen bach, dyna'n union fyddai'n digwydd yn ei ysgol.

Bob amser cinio byddai'r un peth yn digwydd. Ar ôl gwersi'r bore, byddai'r plant yn rhuthro allan i'r iard, nid i chwarae ond i chwilio am fwyd yn y biniau sbwriel.

Doedd y plant yn yr ysgol ddim yn gallu fforddio talu am ginio. Ysgol i blant tywyll eu croen oedd yr ysgol hon. Yn yr un ardal roedd yna ysgolion eraill. Ond ysgolion i blant gwyn oedd y rheiny. Roedd y plant yn yr ysgolion hyn yn cael cinio am ddim. Roedd llywodraeth y wlad yn prynu cinio i bob plentyn yn yr ysgol. Ond doedd hyn ddim yn digwydd yn yr ysgolion i blant tywyll eu croen.

"Beth wyt ti'n feddwl fydd yn y biniau heddiw?" meddai un o'r plant.

"Rydw i'n gobeithio y bydd yna frechdanau pysgod."

"Rydw i'n gobeithio y bydd yna ffrwythau ffres," meddai un arall.

"Efallai y bydd yna datws wedi'u berwi a llysiau," meddai un o'r bechgyn mawr.

Bob amser cinio byddai Desmond yn rhyfeddu at hyn. Eisteddai dan y goeden yn yr iard yn gweld y plant yn rhuthro o un bin i'r llall. Nid sbarion oedd yn y biniau ond cinio plant o'r ysgolion eraill. Doedd y plant gwyn eu croen ddim yn bwyta cinio'r ysgol. Roedden nhw yn ei daflu'n syth i'r bin.

Er bod llywodraeth y wlad yn talu am ginio i'r plant gwyn, roedd yn well ganddyn nhw eu bwyd eu hunain. Felly, bob amser chwarae yn ystod y bore, byddai'r plant yn taflu eu cinio i'r biniau

sbwriel. Nid sbarion oedd yna ond bwyd da cyflawn.

"Ni bydd neb sy'n fy nghanlyn i byth yn rhodio yn y tywyllwch ond bydd ganddo oleuni'r byd."

Ioan 8:12

Diolch i Ti, O Dduw,
am lais sy'n ddigon
dewr i siarad pan fo hynny'n anodd.
Dyma wnaeth Desmond Tutu
trwy'i fywyd.
Llefarodd pan oedd yn blentyn,
llefarodd ar ôl iddo dyfu i fyny
yn erbyn apartheid.
Safodd yn gadarn dros y dyn
tywyll ei groen.
Daliodd ati.
Rho dy nerth i bobl sy'n barod
i sefyll yn gadarn dros yr hyn maen nhw'n ei gredu.
Mi fuaswn innau hefyd yn hoffi
bod yn debyg iddyn nhw.
Amen.

Mae llawer sydd wedi cyfarfod Desmond Tutu yn dweud fod ganddo bersonoliaeth 'garismataidd'.
Beth ydych chi'n feddwl ydi ystyr y gair hwn?
Ydi'r math yma o bersonoliaeth yn help iddo gyflawni ei waith?
Fedrwch chi feddwl am bobl eraill â phersonoliaethau carismataidd?

Desmond Tutu: 1931-